## Deunyddiau bioseiliedig i'r diwydiant adeiladu yn defnyddio adnoddau naturiol Cymru

Seminar hanner diwrnod ar nwyddau adeiladu cynaliadwy a gynhelir gan BEACON a'r Alliance for Sustainable Building Products

Mae BEACON a'r Alliance for Sustainable Building Products (ASBP) yn eich gwahodd i gymryd rhan mewn gweithdy i'r diwydiant adeiladu yn defnyddio adnoddau naturiol o Gymru.
Cynhelir y gweithdy yn Neuadd Reichel, Prifysgol Bangor ar 28 Tachwedd 2013.

Mae cyfle enfawr i gynhyrchu amrywiaeth o nwyddau gwerth uchel o adnoddau naturiol o Gymru. Gellir gwneud nifer o wahanol nwyddau i ddefnyddwyr ac i ddiwydiannau o ddefnyddiau sy'n deillio o adnoddau naturiol. Mae'r rhain yn cynnwys tecstilau, colur, bio-plastigau, llechi toi a chynnyrch inswleiddio o ffibrau naturiol.

Mae coedwigoedd ac adnoddau naturiol Cymru yn rhoi cyfle i ddatblygu nwyddau arloesol a chynaliadwy i'r diwydiant adeiladu yng Nghymru. Bydd y gweithdy hwn yn canolbwyntio ar sut i gael y gwerth mwyaf o ffibr ac adnoddau naturiol eraill yng Nghymru trwy wneud bio-gynnyrch a bio-deunyddiau cynaliadwy newydd.

Mae cwmnïau adnoddau naturiol yn ystyried datblygu a buddsoddi mewn cynnyrch newydd ond mae'n rhaid ymchwilio, datblygu a mabwysiadu technoleg a phrosesau newydd yn eu ffatrïoedd presennol. Rhai o'r risgiau cysylltiedig yw'r risg o gynyddu mewn maint a buddsoddi. Rhaid lliniaru'r risgiau hyn gymaint ag y bo modd. Gall BEACON a'r cyfleuster unigryw ym Mona ar Ynys Môn helpu cwmnïau i leihau'r risg yn sylweddol.

Caiff cynadleddwyr gyfle i glywed arbenigwyr o feysydd academaidd ac o'r diwydiant yn siarad am:

• Y cyfle i Gymru - defnyddio adnoddau naturiol Cymru i wneud nwyddau cynaliadwy
• Ffactorau allweddol i sicrhau llwyddiant i brojectau cynnyrch cynaliadwy
• Yr heriau a'r gwahanol risgiau a wynebir
• ASBP - Dull o weithredu ar ffurf consortiwm: Sut y gall cwmnïau adnoddau naturiol fod yn bartneriaid pwysig wrth ddatblygu cynnyrch cynaliadwy a'r cadwyni gwerth sy'n eu cefnogi.
• Project BEACON, cyfleusterau cynyddu maint i helpu i leihau risgiau'r project - ymweld â'r safle yn y prynhawn

Bydd dod i'r gweithdy hwn yn ehangu eich gwybodaeth am nwyddau adeiladu cynaliadwy i'r diwydiant adeiladu; dysgu am ddatblygu cynnyrch newydd a sut gall cydweithio gyda phrojectau BEACON helpu i leihau risgiau'r project.